

RAPHAEL LEMKIN



HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

Raphael Lemkin, un o oroeswyr yr Holocaust, fathodd y gair 'genocide' (hil-laddiad), a helpodd i sicrhau bod y term yn ennill ei blwyf mewn cyfraith ryngwladol. Roedd wedi'i synnu a'i dristáu gan sawl cyflafan ar hyd y canrifoedd, yn ogystal â llofruddiaeth ei deulu gan y Natsïaid, felly roedd yn ysu am weld gwledydd yn cael eu dwyn i gyfrif am gyflawni gweithredoedd brawychus o fewn eu ffiniau. Ymgyrchodd yn ddiflino i gyflawni ei nod.



'Rhaid i ni teihau'r peltter rhwng y galon a'r weithred. Byw syniad, nid dim ond siarad amdano neu ei deimlo.'

Ganwyd Raphael Lemkin ar 24 Mehefin 1900 i deulu Iddewig Pwylaidd ym mhentref bach Bezwodne, ger dinas Vawkavysk, a oedd yn rhan o Ymerodraeth Rwsia ar y pryd ac sydd bellach yn rhan o Felarws. Ffermwr oedd ei dad, a'i fam yn baentwraig, yn ieithydd ac yn fyfyrwraig athroniaeth. Trwyddi hi y datblygodd ei ddiddordeb brwd yn y gorffennol a fyddai'n llywio'i fywyd cyfan.

Bywyd cynnar

Daeth yr awgrym cyntaf o'r dylanwad y byddai Raphael Lemkin yn ei gael ar gyfraith ryngwladol ym 1913. Ac yntau'n 12 oed, roedd yn darllen *Quo Vadis?* Henryk Sienkiewicz, llyfr sy'n trin a thrafod sut roedd Nero, yr ymerawdwr Rhufeinig, wedi lladd pobl a oedd wedi cael tröedigaeth i Gristnogaeth yn y ganrif gyntaf. Gofynnodd i'w fam pam fod pobl wedi sefyll o'r neilltu a gadael iddo fwydo'r Cristnogion hyn i'r llewod, a hynny'n unig am bwy oedden nhw. Pwysleisiodd ei fam wrtho bod dinasyddion, unwaith roedd gwladwriaeth yn penderfynu cael gwared ar garfan benodol o'i thiroedd, yn troi i fod yn 'gyd-droseddwr yn hytrach na gwarchodwr bywyd dynol'. Taniodd Sienkiewicz a mam Lemkin ei obsesiwn gydol oes gyda cheisio deall llofruddiaeth dorfol, boed hynny gan Nero, ar wastadeddau llychlyd Diffeithdir Syria neu yn siambrau nwy Ewrop dan law'r Natsïaid.

Erbyn ei ugeiniau, roedd Raphael yn rhugl mewn saith iaith, a'r diddordeb brwd hwn mewn ieithoedd a'i sbardunodd i gofrestru ym Mhrifysgol Lvov i astudio ieitheg - esblygiad iaith. Ond gadawodd ei gwrs ar ôl cwta flwyddyn, ar ôl clywed am lofruddiaeth Talaat Pasha, arweinydd yr



@hmd_uk

hmd.org.uk



/hmd.org.uk

Ymerodraeth Otomanaidd, ym Merlin. Pasha oedd yn gyfrifol am y gyflafan yn erbyn yr Armeniaid - gorchmynnodd fod deallusion Armeniaid yn cael eu harestio a'u halltudio yng Nghaergystennin ar 24 Ebrill 1915 a chreodd gyfraith dros dro i awdurdodi alltudio Armeniaid i Syria. Roedd yn gyfrifol am ddifodiant cannoedd ar filoedd o bobl, ond eto roedd wedi llwyddo i ffoi o'r Ymerodraeth Otomanaidd i Ferlin pan roedd hi'n edrych yn hynod debygol y byddai'n cael ei threchu gan Brydain yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ystod ei alltudiaeth, fe'i dedfrydwyd i farwolaeth yn ei absenoldeb gan lysoedd Twrci, a chafodd ei saethu'n farw gan Soghomon Tehlirian, Armeniaid a oedd am dalu'r pwyth yn ôl ar ôl i'w deulu cyfan gael ei lofruddio yn y gyflafan.

Ail-sbardunodd y newyddion hyn chwilfrydedd Lemkin mewn llofruddiaeth dorfol. Cwestiynodd natur gyfreithlon drosedd lle mae dyn yn lladd miliynau, gan wneud hynny heb gael ei gosbi o fewn ffiniau ei wlad. Trosglwyddodd i ysgol y gyfraith Lvov, graddiodd a chafodd waith fel erlynydd. O 1929, treuliodd ei amser hamdden yn llunio cyfraith ryngwladol a fyddai'n gweld llywodraethau ym mhedwar ban byd yn ymrwmo i fynd i'r afael ag unrhyw ymgais i ddifodi pobl yn seiliedig ar eu crefydd, eu cenedligrwydd neu eu grŵp ethnig. Cyflwynodd ei syniadau am y tro cyntaf i'w gydweithwyr cyfreithiol Ewropeaidd ym Madrid ym 1933 ar ffurf traethawd o dan y teitl *Crime of Barbarity*. Diffiniodd barbareaiddwch fel mynd ati'n fwriadol i ddinistrio grwpiau cenedlaethol, hiliol, crefyddol a chymdeithasol, ar sail y digwyddiadau yn Armenia, a mynnodd fod hyn yn sicr yn anghyfreithlon o dan gyfraith ryngwladol. Mewn hinsawdd o ymynysiaeth yn Ewrop yn y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel byd, doedd neb am wrando arno.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ar ôl mynegi pryderon am Hitler a'r Almaen Natsïaidd a'u beirniadu'n ddi-flewyn ar dafod, rhoddwyd pwysau ar Lemkin i ymddiswyddo fel dirprwy erlynydd cyhoeddus. Honodd Józef Beck, Gweinidog Tramor Gwlad Pwyl, fod Lemkin yn sarhau 'ein ffrindiau yn yr Almaen' ar adeg pan oedd y wlad yn ceisio meithrin cysylltiadau gyda'i chymydog. Ond ni wnaeth hyn unrhyw beth i bylu brwdfrydedd Lemkin ac aeth ati i ganolbwyntio ar ledaenu ei neges mewn cynadleddau ar y gyfraith ledled Ewrop. Gyda dechrau'r Ail Ryfel Byd, byddai ei ddadl yn fwy perthnasol nag erioed.

Blynyddoedd y rhyfel

Croesodd y Natsïaid y ffin i Wlad Pwyl ym mis Medi 1939. Gadawodd Lemkin Warsaw ar drên ar unwaith ond ni theithiodd ymhell cyn i fom ddisgyn ar ei drên. Roedd rhaid iddo ffoi drwy gefn gwlad gydag eraill a oedd yn yr un cwch. Gan osgoi bomiau'r Natsïaid a thwylo milwyr Sofietaidd ei fod yn aelod o'r dosbarth gweithiol, cyrhaeddodd Lemkin dref Iddewig fach yn nhalaith Wolynia. O'r dref honno, llwyddodd i gael trên Sofietaidd i'r dwyrain i gartref ei rieni er mwyn eu gweld, a hynny am y tro olaf. Penderfynodd ei rieni a'i frawd nad oedden nhw am fod yn ffoaduriaid, gan ddewis aros yn eu cartref clyd cyhyd ag y gallen nhw, gyda'u gwelyau a'u stôr o fwyd. Ffarweliodd Lemkin â nhw a theithiodd i Sweden drwy Lithwania.

Cafodd yr hawl i deithio i Sweden wedi iddo wneud cais am loches i weinidog cyfiawnder y wlad. Cyrhaeddodd Stockholm ym mis Chwefror 1940. Aeth ati ar unwaith i ddysgu Swedeg, ac ar ôl pum mis yn unig, dechreuodd ddarlithio yn yr iaith ar gyfraith ryngwladol ym Mhrifysgol Stockholm. Ond roedd â'i fryd ar gyrraedd yr Unol Daleithiau, gan sicrhau miloedd o filltiroedd o fôr rhyngddo ef a dinistr cynyddol y Natsïaid. Ond eto roedd wedi'i ddal rhwng yr Almaen a Rwsia. Ar ôl cael swydd yn Duke University yng Ngogledd Carolina, teithiodd Lemkin drwy Rwsia ac ar draws y Môr Tawel, gan gyrraedd harbwr diogel yn Seattle, Washington ar 18 Ebrill 1941.



Cafodd groeso cynnes pan ddechreuodd ei swydd yn Duke University a buan iawn y daeth i'r arfer â bywyd yn yr Unol Daleithiau. Roedd pobl wedi'u cyfareddu gan ei brofiad o'r rhyfel yn Ewrop, a manteisiodd ar hynny i ddweud wrth sawl cynulleidfya am sut roedd y Natsïaid yn bygwth gwareiddiad. Clywodd ei rieni'r newyddion da ei fod wedi cyrraedd yr Unol Daleithiau'n ddiogel, a chlywodd Lemkin ganddyn nhw am y tro olaf ym mis Mehefin 1941. Roedden nhw wedi ysgrifennu ar ddarn o bapur: 'Rydym ni mewn iechyd da ac yn hapus y bydd y llythyr yn dy gyrraedd yn America'. Roedd y llythyr treuliedig a'r geiriau camarweiniol yn debycach i lythyr ffarwel na llythyr i dawelu ei feddwl. Llofruddiwyd ei rieni yn Treblinka ddiwedd 1942. Wrth sôn am y dyddiau duon hyn, meddai: 'Yng Ngogledd Carolina, dyw dyn heb orffen gwisgo nes ei fod yn gwisgo gwên. Fe ddechreuais i wenu, ond roedd fy myd yn ddi-liw am fisoedd lawer'. Dim ond ei frawd a'i wraig, a'u dau o blant, oroesodd blynnyddoedd y rhyfel. Lladdwyd o leiaf 49 o'i berthnasau.

Ym 1942, cafodd Lemkin waith gyda Llywodraeth yr Unol Daleithiau a pharhau wnaeth i roi pwysau ar wleidyddion i weithredu yn erbyn y Natsïaid. Roedd hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd er mwyn annog pobl i roi mwy fyth o bwysau ar bolisi tramor UDA. Ond sylweddolodd fod rhywbeth ar goll yn ei ymgyrch: label ar gyfer trosedd mor farbaraidd a oedd yn crynhoi ei chreulondeb cynhenid a'i natur ddinistriol, unigryw. Roedd angen gair a fyddai'n hoelio sylw pobl ac yn ennyn condemniad moesol digamsyniol ar amrantiad.

Gan ddefnyddio'i ddawn gydag ieithoedd a'i angerdd, bathodd y gair 'genocide'. Roedd yn cyfuno'r tarddair Groegaidd '*genos*' (sy'n golygu 'hil' neu 'llwyth') gyda'r tarddair Lladin *cide* (sy'n golygu 'lladd'). Gair hawdd i'w ddweud, cryno ac effeithiol - dyma'r ateb geiriol yn nhyb Lemkin. Diffiniodd y gair fel 'cynllun cydlynol o weithredoedd gwahanol sydd â'r nod o ddinistrio sylfeini annatod bywyd grwpiau cenedlaethol, gyda'r nod o waredu'r grwpiau eu hunain'. Er hynny, ofer fyddai enw ar gyfer y drosedd erchyll hon heb ddeddfwriaeth ryngwladol i'w gorfodi, ac roedd gan Lemkin lawer i'w wneud yn hynny o beth.

Ar ôl y rhyfel

Ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd, teithiodd Lemkin i Nuremburg gyda'r nod o hyrwyddo'i agenda i sefydlu hil-laddiad mewn cyfraith tra roedd troseddwyr rhyfel Natsïaidd yn cael eu rhoi ar brawf. Cafodd sawl buddugoliaeth fechan wrth i'r gair 'genocide' ymddangos yn iaith swyddogol yr achosion, ond ni chafodd unrhyw un ei erlyn gan ddefnyddio'r term - dim ond 'troseddau yn erbyn dynoliaeth'. Roedd wedi ymgolli'n llwyr yn ei ymdrechion, a thalodd y pris gyda'i iechyd. Doedd e ddim yn cysgu, roedd ei bwysedd gwaed yn uchel a byddai'n llewygu o newyn ar brydiau. Gadawodd Nuremburg a dychwelyd i UDA i geisio darbwyllo'r Cenhedloedd Unedig yn eu swyddfa yn Efrog Newydd. Gwnaeth niwsans o'i hun yno, gan hambygio cynrychiolwyr gydag enghreifftiau o genocide yn y gobaith y bydden nhw'n cefnogi ei agenda.

Er iddo dyfu'n 'fwy gwelw, yn fwy tenau, ac yn fwy anniben', bu holl ymdrechion Lemkin yn werth chweil yn y pen draw. Ar 11 Rhagfyr 1946, pasiodd Cyfarfod Cyffredinol y CU benderfyniad yn condemnio hil-laddiad, a ffurfiwyd pwyllgor i lunio cytundeb a fyddai'n ei wneud yn anghyfreithlon. Yn ôl erthygl olygyddol yn y New York Times yn dilyn y penderfyniad: 'From now on no government may kill off a large block of its own subjects without impunity'. Bedair blynedd yn ddiweddarach, ar 16 Hydref 1950, ar ôl pleidlais unfrydol y Cyfarfod Cyffredinol i basio'r gyfraith ac ar ôl i 20 o wledydd y CU ei chadarnhau yn eu cyfraith ddomestig, cafodd trosedd hil-laddiad ei gwneud yn anghyfreithlon yn rhyngwladol.



Ni fyddai'n gweld unrhyw un yn cael ei roi ar brawf am y drosedd – byddai 50 mlynedd yn pasio cyn i rywun gael ei ddyfarnu'n euog o hil-laddiad, sef Jean-Paul Akayesu, maer o Rwanda, am ei ran yn hil-laddiad y wlad ym 1994. Ni fyddai Lemkin yn gweld ei wlad fabwysiedig, UDA, yn cadarnhau'r cytundeb chwaith, gan osod esiampl ofnadwy i'r gymuned ryngwladol. Roedd agweddau traddodiadol UDA at gadw'u sofraniaeth yn golygu bod gwleidyddion yn gyndyn o'i gefnogi, a dim ond cryfhau wnaeth yr agweddau hyn wrth i'r Rhyfel Oer barlysu cysylltiadau rhyngwladol ac wrth i ymgyrch McCarthy greu hinsawdd o amheuaeth ac ofn o fewn ffiniau UDA. Treuliodd Lemkin ei flynyddoedd olaf yn hambygio gwleidyddion am hil-laddiad - roedd yn ysu am gael hyd i ffordd o gadarnhau'r cytundeb. Parhau i ddirywio wnaeth ei iechyd. Roedd ar y clwt ac yn cilio fwyfwy i'w gragen, gan ddiflannu am ddyddiau ar y tro oddi wrth y dyrnaid o ffrindiau oedd ganddo. Ar 28 Awst 1959, y flwyddyn y cafodd ei enwebu am Wobr Heddwch Nobel am y pumed tro, syrthiodd yn gelain ar ôl trawiad ar y galon yn swyddfa'r wasg cwmni cyhoeddi. Roedd yn 59 oed. Does dim amheuaeth i'w ymdrechion diflino i sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr hil-laddiad, yn y gorffennol ac yn y dyfodol, arwain at ei farwolaeth mor ifanc, ond mae ei ddylanwad yn parhau. Nid yn unig y gwnaeth fathu'r gair sy'n diffinio'r drosedd, ond sicrhaodd hefyd le'r drosedd honno mewn gwrslyfrau cyfraith.



@hmd_uk

hmd.org.uk



[/hmd.org.uk](https://www.facebook.com/hmd.org.uk)